NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Ocsodotreotid lwtetiwm (177Lu) i drin tiwmorau niwroendocrin lle na ellir eu tynnu'n llwyr neu rai metastatig

29 Awst 2018

Mae ocsodotreotid lwtetiwm (177Lu) ar gael gan y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer tiwmorau niwroendocrin y pancreas neu gastroberfeddol mewn oedolion os:

- na ellir tynnu'r tiwmorau'n llwyr neu os ydynt yn fetastatig a bod y clefyd yn datblygu
- yw'r tiwmorau wedi'u gwahaniaethu'n dda (gradd 1 neu radd 2)
- bod y tiwmorau yn dderbynyddion somatostatin positif.

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

## Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

**Gwybodaeth a chymorth**

Gall NHS Choices fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 000
- Sefydliad Cleifion NET, 0800 434 6476

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3071-5

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights